Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 18 Mai,2026 drwy gyfrwng Zoom

Presennol: Elen (EH)**(Cadeirydd),** Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Dwynwen (DP), Richard (RR), Eurig (EJ), Steve (SW), Gethin (GR), Keith (KR)

Ymddiheuriadau: Dilys, Dewi, Erwyn, Mathew

1.	**LLLONGYFARCHIADAU** Llongyfarchwyd Elen ar enedigaeth ŵyr bach newydd, mab i Mari ac Emyr.	
2.	**COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2026 fel rhai cywir.	
3.	**MATERION ARIANNOL** Cyflwynwyd adroddiad DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol Adroddwyd • Erbyn 7 Mai 2026 roedd aelodaeth y Clwb yn 242 yn ogystal â 64 'cyfaill' nad oedd yn talu'r tâl aelodaeth llawn • Ers y cyfarfod yn Ionawr gwnaed taliadau i'r CMP, taith Ullapool, yr Eisteddfod (£100), cardiau argyfwng (£270), anfon cardiau aelodaeth (£189) a batri 'r diffib (£146). Nid oedd unrhyw daliadau eraill yn ddyledus ar hyn o bryd • Roedd swm o £7,404.81 yn y banc ar 7 Mai 2026 Cytunwyd nodi'r wybodaeth.	
4.	**CYFARFOD BLYNYDDOL** Adroddwyd • y cytunwyd i gynnal y cyfarfod eleni yng Ngwesty'r Royal Oak, Betws y Coed ar nos Sadwrn, 21 Tachwedd 2026. • gan fod y nifer yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol yn 2025 yn isel ac wedi bod yn lleihau yn gyffredinol dros y blynyddoedd , gofynnwyd i'r Pwyllgor roi sylw i hyn ac ystyried a fyddai modd cynyddu'r presenoldeb. • y penderfynwyd gofyn i Paula Roberts drefnu holiadur i holi barn yr aelodau ac i geisio adnabod ffyrdd o gynyddu'r nifer oedd yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol Ystyriwyd adroddiad a baratowyd gan Paula yn amlinellu canlyniadau ei harolwg Cytunwyd gweithredu ar y llinellau isod i. heblaw am (ii) isod, parhau â'r trefniadau eleni i gynnal y cyfarfod yng Ngwesty'r Royal Oak ar nos Sadwrn, 21 Tachwedd 2026 yn ôl y drefn arferol heb siaradwr gwadd ii. y dylid estyn gwahoddiad i aelodau ymuno â Chyfarfod Blynyddol 2026 drwy gyfrwng Zoom pe dymunent iii. hysbysu'r Cyfarfod Blynyddol fod y Pwyllgor yn argymell arbrofi gyda'r trefniadau canlynol ar gyfer 2027: A. bod y Cyfarfod Blynyddol yn unig yn cael ei gynnal ar wahân drwy gyfrwng Zoom	

	B. bod gweithgaredd cymdeithasol yn cael ei drefnu gan y Clwb ar wahân i'r Cyfarfod Blynyddol ar seiliau hyblyg a allai gynnwys trefnu penwythnos o weithgareddau . C. nodi y gellid bod yn hyblyg ynglŷn â pha adeg ar y flwyddyn i gynnal y digwyddiadau a nodir yn A. a B. uchod. iv. diolch i Paula am ei holl waith ar y arolwg.	
5.	**<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>** Adroddodd RR fel a ganlyn: • bod y rhaglen ar gyfer y cyfnod Mai i Awst wedi ei chyhoeddi yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau a'i fod yn hynod ddiolchgar i bawb gynigiodd arwain teithiau. • y cynhaliwyd taith flasu lwyddiannus ar Gader Idris gyda SW yn arwain • yn sgil y llwyddiant uchod bu'n trafod gyda SW y posibilrwydd o drefnu taith flasu arall ym mis Medi • gan ei fod ar ei wyliau ddiwedd Awst a dechrau Medi, byddai'n apelio am deithiau ar gyfer y cyfnod Medi i Ragfyr yn gynt na'r arfer • Adroddodd EJ fod teithiau misol yn parhau i gael eu trefnu yn y de Cytunwyd i. nodi'r wybodaeth a diolch i RR am ei holl waith ii. estyn diolch i SW am drefnu taith flasu lwyddiannus ar Gader Idris iii. cytuno â'r awgrym y dylid cynnal taith flasu arall ym mis Medi a gofyn i SW a RR drafod y trefniadau .	
6.	**<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2026</u>** Adroddwyd fod trefniadau ar y gweill ar gyfer gweithgareddau'r Clwb yn yr Eisteddfod eleni gyda Dwynwen yn traddodi'r ddarlith a Richard Mitchley yn arwain y daith. Cytunwyd i. derbyn y wybodaeth a nodi y bydd DP yn trefnu posteri cyhoeddusrwydd ar gyfer y gweithgareddau dan sylw ii. gofyn i RR maes o law anfon y posteri at aelodau'r Clwb a gofyn iddynt eu rhannu ar eu cyfryngau cymdeithasol	
7.	**<u>MATERION CMP</u>** Adroddodd KR ei fod wedi cyfarfod ag ambell i swyddog o'r CMP yn ddiweddar ac wedi cael ar ddeall fod rhai ohonynt yn awyddus i gwrdd â'r Clwb i drafod materion o ddiddordeb i'r ddau gorff. Cytunwyd gofyn i IPR estyn gwahoddiad i Eben Muse, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd (Cymru) gyda CMP, i gyfarfod â'r Pwyllgor.	
8.	**<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>** Trafodwyd y berthynas rhwng y Clwb a'r Bartneriaeth ac ystyriwyd gwerth parhau i dalu'r £150 yn flynyddol fel tâl aelodaeth o'r corff	

	Cafwyd adborth gan DP a oedd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y Clwb a'r Bartneriaeth am ei phrofiad o ddelio â'r corff. Adroddodd mai ond cymwysterau swyddogol, a fyddai o fantais i'r Clwb fel corff yn unig, yr oedd y Bartneriaeth yn fodlon eu cefnogi ,megis cymwysterau Arweinydd Mynydd neu Cymorth Cyntaf. Roedd disgwyl i aelodau adnabod cyrsiau addas a'i hysbysu fel y gellid trefnu derbyn cymorth o'r Bartneriaeth ar gyfer eu mynychu. Roedd un aelod y llynedd wedi cael cymorth gyda gwneud cwrs asesiad Arweinydd Mynydd Cytunwyd i. gan fod cymhwyster Cymorth Cyntaf nifer o aelodau yn dod i ben eleni ei bod yn werth parhau ag aelodaeth y Bartneriaeth. ii. gofyn i RR anfon neges at yr aelodau yn holi os oedd diddordeb mewn mynychu cwrs Cymorth Cyntaf.	
9.	**<u>AMGUEDDFA MYNYDDA</u>** Ymholwyd gan IAG a ddylid ystyried y syniad o gael amgueddfa yn olrhain hanes mynydda yng Nghymru gan fod Eryri a Chymru wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad mynydda, ac mai da o beth fyddai cofnodi a dathlu hyn. Awgrymodd, gan fod gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru safle yn Llanberis (yr Amgueddfa Lechi) yng nghanol Eryri, y byddai yn werth cysylltu â hwy fel cam cyntaf i holi a fyddent yn fodlon clustnodi gofod/ystafell ar gyfer olrhain hanes mynydda. Cytunwyd cefnogi'r hyn a awgrymwyd gan IAG a gofyn i IPR ysgrifennu at yr Amgueddfa Genedlaethol yn gofyn iddynt am eu hymateb i'r hyn a gynigir.	
10.	**<u>GOHEBIAETH GYDA'R AROLWG ORDNANS</u>** Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gopi o'r ohebiaeth a anfonwyd at y Arolwg Ordnans yn cefnogi'r cais iddynt newid eu polisi presennol ar ddefnyddio enwau lleoedd tirweddol (daearyddol) ar fapiau yng Nghymru ac yn arbennig yr arferiad o osod enwau Saesneg ochr yn ochr ag enwau Cymraeg cynhenid. Cyflwynwyd hefyd gopi o ymateb yr Arolwg Ordnans yn amlinellu eu polisiau ar hyn. Cytunwyd derbyn y wybodaeth a nodi fod hyn yn fater sy'n parhau yn fyw a bod angen cadw llygaid barcud arno.	
11.	**<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>** Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 7 Medi, 2026, drwy gyfrwng Zoom.	